


## 141. Llefaru Unigol i rai rhwng 12 ac o dan 16 oed
'Hedydd yn yr haul', T. Glynne Davies, Sbectol Inc

### Hedydd yn yr haul (Detholiad)

Llyfr Hanes

A Duw yn y dyddiau hynny a greodd rywbeth
Amgenach nag ymlusgiaid y ddaear,
Gwyrth fwy nag electron,
Fwy cymhleth na'r natur ddynol,
Rhyfeddod mwy lliwgar na'r enfys,
Mwy annatod nag atom.

Fe greodd Duw fap,
Ac arno 'roedd smotyn,
ond 'roedd o'n smotyn
Â siâp iddo,
Siâp fel hen ddynes
Yn pwyntio at lesni'r môr,
At bysgod
Ac at Iwerddon:

Hen ddynes,
Hen wraig,
Hen wrach,
Hen ferch –
Dewiswch fel y mynnoch.

Ond Duw a gymerth y smotyn
Yn annwyl i wres bythol ei galon,
Ac fe lanwodd y smotyn
Â thrugaredd
Ac etifeddiaeth
A hanes,
A'i lapio yn dyner mewn deigryn
Fel bod 'och' ymhob calon;

Yn y smotyn hwn, meddai Duw
Bydd pob calon yn gignoeth.

Fe gânt eiriau fel
Hiraeth a
Gofid a
Galar.

Fe gânt hanes
Llawn gormes a brad a gwaradwydd:

Fe gânt iaith
A fydd ar drengi'n dragywydd
Ac enaid
A fydd yn trol a throsi yn ei gwsg
Yn oes oesoedd.

Ond yma, medd Duw,
Bydd cariad yn teyrnasu;

Ac yna,
Gan redeg ei fysedd trwy'i farf yn gariadus,
Fe alwodd y smotyn yn Gymru.

Hwdiwch, meddai Duw:
Dyma'ch etifeddiaeth.

*T.Glynne Davies*